

# CERRIG YN SLIC

**Drama ryngweithiol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen.**

# CERRIG YN SLIC

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr: | Jeremy Turner |
| Yr actorion: | Ffion Wyn Bowen, Tomos Wyn |
| Ymchwil: | Mari Rhian Owen, Ffion Wyn Bowen, Jeremy Turner |
| Cynllun: | Jeremy Turner, Matt Lloyd |
| Gwisgoedd: | Misha Homayour-Fekri |
| Rheolwr Llwyfan ar Daith | Dawn Rawcliffe |
| Pecyn Athrawon: | Jeremy Turner, Mari Rhian Owen (CTAG).<br>Cyngor Sir Ceredigion: Helen Davies, Hannah Thomas, Nia Thomas, Linda Davies, Bethan Mai Jones, Owena Davies.<br>Rachel Vearey-Roberts and Bethan Davies, Ysgol Comins Coch. |
| Lluniau | Elin Crowley / Keith Morris. |

**Staff Parhaol Cwmni Theatr Arad Goch**



| | |
|---|---|
| Clerc y cwmni: | Ann Penny |
| Swyddog Cyswllt Ysgolion: | Anne Evans |
| Rheolwr Technegol: | Simon Lovatt |
| Swyddog Marchnata: | Carwyn Blayney |
| Is-gyfarwyddwr: | Mari Rhian Owen |
| Rheolwr Gweinyddol: | Angharad Lewis /<br>Nia Wyn Evans |
| Cyfarwyddydd Artistig: | Jeremy Turner |

Ffyrdd o gysylltu â Chwmni Theatr Arad Goch:
Ffôn: 01970 617998
Ffacs: 01970 611223
e-bost: post@aradgoch.org
post: Arad Goch, Stryd y Baddon, Aberystwyth, SY23 2NN

Cefnogir gwaith Cwmni Theatr Arad Goch gan
Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Gaerfyrddin.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Elusen Gofrestredig / Registered Charity 702506
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yng Nghymru / Company Limited by Guarantee in Wales 2375424
Rhif TAW/VAT No.549 6488 83

# CYFLWYNIAD A GWYBODAETH I ATHRAWON

**Y perfformiad**

Mae CERRIG YN SLIC yn ddatblygiad ar gynhyrchiad blaenorol a welwyd gyntaf 7 mlynedd yn ôl; rydyn ni wedi'i seilio ar fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Mae'r perfformiad rhyngweithiol sy'n para tua 50 munud yn cynnwys nifer o themâu ac mae'n fan cychwyn ar gyfer gweithgareddau dilynol yn y dosbarth.

Mae'r perfformiad yn cynnwys amryw o elfennau:

- mae'r **defnydd o wrthrychau naturiol** – cerrig a thywod – yn rhan bwysig o'r digwyddiadau a'r storïau; mae'r cymeriadau wedi creu byd newydd ble mae realiaeth a'r dychymyg yn cwrdd â'i gilydd;
- mae **elfen emosiynol** gref i'r stori; mae'r cymeriadau yn cwrdd, cyd-fyw, anghytuno, siomi, a dod yn ffrindiau eto; mae eu hymddygiad a'u hymatebion wedi'u seilio ar ein gwaith ymchwil ar sut mae plant yn chwarae ac yn ymwneud â'i gilydd;
- mae'r ddrama yn fwriadol amhenodol o safbwynt y berthynas rhwng y cymeriadau, eu hanes, y lleoliad a'r sefyllfa mae'n nhw'n byw ynddi; mae hyn er mwyn i'r gynulleidfa 'ddarllen' y ddrama mewn ffyrdd gwahanol ac er mwyn iddynt **ychwanegu eu syniadau eu hunain** at y stori.


Mae rhai syniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio'r elfennau hyn yn y pecyn yma; rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r athrawon a'n helpodd i gynhyrchu'r pecyn.

**Geirfa**

Er nad yw'n angenrheidiol paratoi'r plant ymlaen llaw ar gyfer y perfformiad, efallai bydd y plant yn elwa mwy o'r perfformiad os ydynt eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r eirfa a ddefnyddir (ar dudalen 14).

**Pethau i'w cofio**

- Mae'n rhaid i athro/athrawes fod yn bresennol yn ystod y perfformiad.
- Fe fydd y perfformiad yn dechrau yn yr awyr agored; gofynnwn i chi sicrhau bod gan y plant ddillad addas.
- Peidiwch â dweud wrth y plant am y perfformiad o flaen llaw, os gwelwch yn dda: mae'r elfen annisgwyl yn rhan o'r profiad.
- Os nad ydych yn sicr o'r trefniadau neu os bydd angen newid trefniadau ffoniwch ni gyntaf os gwelwch yn dda.



**Cadwch mewn cysylltiad**

Rydyn ni'n hoff iawn o dderbyn esiamplau o'r gwaith a wneir gan y plant yn sgîl ein hymweliadau; pan fyddwch wedi gorffen â'r gwaith anfonwch esiampl neu luniau ohono atom os gwelwch yn dda.

Derbyniwn lawer o e-negeseuon gan blant a welodd ein gwaith - ac anfonir ateb at bob un ohonynt; ein cyfeiriad yw post@aradgoch.org . Rydym yn gwerthfawrogi derbyn eich sylwadau chi'r athrawon am ein gwaith hefyd ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffurflenni ymateb ar ôl ein hymweliadau.

Cofiwch – os oes unrhyw broblem cysylltwch â ni
Diolch unwaith eto am eich cydweithrediad – a gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r perfformiad!

Jeremy Turner - Cyfarwyddwr Artistig

## ‘...carreg fel neidr – fel tŷ – fel dinosor...’

Mae pawb wedi profi dychymyg byw plentyn wrth iddo weld llais a chlywed llun. Rhydd y Cyfnod Sylfaen gyfloedd i ymarferwyr addysg a’r celfyddydau arwain ac annog plant i holi, meddwl, canfod, rhesymu, chwilio a dychmygu wrth gaffael ac ymarfer y sgiliau a fydd yn eu gwneud yn ddysgwyr effeithiol ac annibynnol.

Bydd CERRIG YN SLIC yn estyn y dychymyg hyd yn oed ymhellach – a’r cwbl sydd eu hangen yw ychydig o gerrig.

Diolch i griw brwdfrydig o athrawon ac aelodau o dîm Cyfnod Sylfaen Ceredigion, a enwir uchod, am gyfrannau at y pecyn hwn o syniadau; gobeithir y bydd y syniadau yn eich cynorthwyo wrth ystyried gweithgareddau dilynol i ymestyn y profiadau theatraidd yn ogystal â hybu sgiliau creadigol a dyfnhau gwybodaeth eich disgyblion. Mae’r syniadau yn seiliedig ar amrywiaeth o gwestiynau sy’n arwain at weithgareddau ymestynnol o fewn y ddarpariaeth barhaus, cyfleoedd i gyfoethogi’r ddarpariaeth honno yn ogystal â sbardun i weithgareddau ffocws penodol.

Wrth gwrs, syniadau yn unig ydy’r rhain: medrwch eu haddasu ar gyfer gwahanol alluoedd a diddordebau eich disgyblion. Mae’r adnoddau yn syml ac mae llawer ohonynt ar gael yn rhad ac am ddim. Yr adnodd drutaf fydd yr oedolyn! Gosodir symbol bach ❈ yn ymyl y gweithgareddau y medrai oedolyn eu hymestyn ym mhellach eto trwy gwestiynu cyfoethog a phwrpasol. Lluniwyd esiampl o daflen gynllunio ar gyfer un ardal bosibl sef siop gerrig, taflen o syniadau pellach a rhestr adnoddau posibl.

Mwynhewch y profiad dychmygus, bywiog hwn gyda’ch plant a manteisiwch ar bob cyfle posibl i ymestyn y dysgu.

**<u>Gwrthrychau naturiol a chwarae rhydd</u>**

Mewn oes pan mae plant yn treulio llawer o’u hamser yn defnyddio adnoddau digidol ar gyfer diddanwch rheoledig, mae’n bwysig eu hannog i chwarae yn ddychmygus ac yn reddfol gyda phethau naturiol. Mae gan gerrig sŵn, ansawdd, pwysau, ffurf a lliw sydd oll yn ychwanegu at brofiad cyffyrddol y plentyn, gan alluogi’i ddychymyg i weithio’n rhydd a thrwy hyn mae’n cyfrannu at ei ddealltwriaeth uniongyrchol o gysyniadau a geiriau. Rhowch lond bocs o gerrig i’r plant er mwyn iddynt chwarae, creu, teimlo, disgrifio, gwrando, pwyso, llunio storïau a dychmygu...

**<u>Dealltwriaeth emosiynol</u>**

Rhan bwysig o weithred theatr yw cynnig drych i’n profiadau er mwyn i ni ddeall profiadau ac emosiynau yn well. Yn CERRIG YN SLIC mae’r ddau gymeriad yn profi ystod o brofiadau ac emosiynau: cyffro, dicter, ofn, siom, cyfeillgarwch, colli hunan reolaeth a chyfaddawdu. Gallwch ddefnyddio’r cymeriadau i drafod emosiynau.

**<u>Datblygu syniadau’r disgyblion am y ddrama</u>**

Dyma rai syniadau gallwch eu trafod gyda’r plant.

Pwy oedd y bobl yn y ddrama? Beth yw eu hoedran? Beth yw eu henwau?
Ble maen nhw? Pam eu bod nhw’n byw fan hyn?
O ble maen nhw wedi dod?
Pam eu bod nhw’n byw mewn byd o gerrig?
Beth arall gallen nhw wneud gyda’r cerrig?
(Yn ogystal gallwch ddefnyddio’r ddrama i drafod ffoaduriaid a digartrefedd).

ARDAL Siop Gerrig — Cynllunio Darpariaeth Parhaus

| Beth mae'r plant yn ei wneud? | Dysgu Allweddol | Adnoddau |
|---|---|---|
| (Beth mae'r plant yn ei wneud yn naturiol wrth chwarae yn yr ardal hon?) | (Pa sgiliau y mae'r plant yn eu dysgu yng nghyd-destun eu chwarae?) | (Pa adnoddau y mae angen iddynt fod ar gael bob amser i ganiatáu i'r dysgu ddigwydd?) |
| • Trafod<br>• Holi/ateb (prynu/gwerthu)<br>• Trafod arian (chwarae rôl)<br>• Creu sefyllfa<br>• Darllen rhestri/archebion/labeli<br>• Mwynhau<br>• Siarad ar y ffôn-cynnal sgwrs/holi gwybodaeth<br>• Grwpio/Trefnu-adnoddau'r siop<br>• Rhannu/gofalu am eraill e.e. carreg unig<br>• Gwneud rhestr<br>• Cyfateb llun/pris<br>• Symud pethau o le i le<br>• Rheoli offer<br>• Galw cyhoeddiadau<br>• Gwisgo lan<br>• Teimlo<br>• Esbonio<br>• Dychmygu<br>• Gwneud seiniau/clywed<br>• Arwain/cyfarwyddo'r chwarae | • Sgiliau cyfathrebu-deialog<br>• Datrys problemau<br>• Cymryd tro/dewis/ penderfynu<br>• Sgiliau cymdeithasol- cyfarch a diolch.<br>• Adnabod priodweddau cerrig amrywiol<br>• Defnyddio/datblygu geirfa ymestynnol<br>• Sgiliau corfforol manwl a bras e.e. gwisgo eu hunain/ symud celfi, trin offer bach a mawr.<br>• Personol a Chymdeithasol – rhannu, cyd-chwarae<br>• Mathemategol – dosbarthu, didoli, arian, pwyso, amser,hyd, maint, siâp, cyfri - talu gan ddefnyddio darnau arian cywir<br>• Iaith – holi ac ymateb i gwestiynu/ trafod, esbonio<br>• Creu rhestr labeli<br>• Adnabod ac ysgrifennu llythrennau a geiriau<br>• Defnydd o ansoddeiriau o ddisgrifio<br>• Dwyn i gof<br>• Holi ac ymateb i gwestiynau<br>• Sŵn/Sain llythyren<br>• Darllen rhifau ffôn o'r llyfr ffôn | • Amrywiaeth o gerrig: llyfn, garw, pigog, smotiog, llwyd, gwyrdd, coch, gwyn, bach, mawr, hir, byr a.y.b<br>• Dillad/Het lwyd<br>• Carreg siap ffôn<br>• Papur ac offer marcio/sialc ar gyfer ysgrifennu ar y cerrig<br>• Til/cownter<br>• Cerrig o wahanol wledydd (esgus)<br>• Amrywiaaeth o labelu<br>• Arian neu caridau sy'n gyfystur i carreg amotiog, carreg lwyd.<br>• Llyfrau gwybodaeth am gerrig<br>• Clorian<br>• Troli/basged<br>• Pwrs/bag<br>• Rhestri parod<br>• Byrddau i farcio<br>• Taflenni bargenion<br>• Posteri- Prynwch un carreg cewch un am ddim !<br>• Llyfrau e.e. llyfrau ffôn, catalogau<br>• Bathodynnau |

| DATBLYGU MEDDWL AR DRAWS Y CWRICWLWM | DATBLYGU CYFATHREBU AR DRAWS Y CWRICWLWM | DATBLYGU TGCh AR DRAWS Y CWRICWLWM | DATBLYGU RHIF AR DRAWS Y CWRICWLWM |
|---|---|---|---|


## Cyfoethogi'r Ddarpariaeth Barhaus/ *Enhancing Continuous Provision*

✵ – Cyfle i oedolyn ymestyn y weithgaredd trwy gwestiynnu cyfoethog

|  Darllen |  Cerdd | Chwarae Rôl |
|---|---|---|
| "Fedri di ddarllen y cyfarwyddiadau / cliwiau i ddod o hyd i'r garreg aur?"<br><br>"Fedri di greu gair/ brawddeg gan ddefnyddio cerrig â llythyren / gair?"<br><br>"Rwyt ti'n awdur gwych. Beth wyt ti'n meddwl sy'n digwydd yn y stori? E.e. Aeth Huwcyn am dro ac fe welodd………" Darllenwch y stori i ffrind/ Recordiwch y stori". | "Sut fath o synau fedrwch chi greu gyda'r cerrig yma?" ✵<br><br>"Wyt ti'n gallu gweithio gyda ffrind i greu patrwm rhythmig?" "Wyt ti'n gallu copïo patrwm rhythmig dy ffrind?"<br><br>"Wyt ti'n medru creu offeryn ysgwyd/ taro?"<br><br>"Wyt ti'n medru creu sain cryf/ tawel?" ✵<br><br>"Pa offeryn fedrwch chi greu o'r adnoddau yma?"<br><br>"Ydy bob carreg yn gwneud yr un sain wrth ei daro?" ✵<br><br>"Fedri di greu sgôr gwahanol gan ddefnyddio cerrig o wahanol faint?" | "Rwyt yn garreg hud. Atebwch gwestiynau gweddill y grŵp." ✵ (Gweler ysgrifennu)<br><br>"Ydych chi'n cofio'r stori am y dref yng nghanol y môr? Dewiswch un rhan o'r stori. Fedrwch chi ail greu y rhan yna i'w pherfformio i weddill y dosbarth. Cofiwch feddwl sut mae'r gwahanol bobl yn teimlo?"<br><br>"Ble awn ni gasglu cerrig heddi?" Fedrwch chi barhau â'r sgwrs rhwng y ddau gymeriad yn y sioe? Cofiwch drefnu ble, pryd a sut." |

| Gemau bwrdd / Jig-sos | Mathemateg | Corfforol |
|---|---|---|
| "Fedrwch chi ddod o hyd i bâr o lythrennau/ geiriau sy'n cyfateb ar y grid?"<br><br>"Gwnewch y rhifau 1,2,3,4,5 gyda cherrig ar y cae chwarae"<br>"Fedri di daflu cerrig at rif 3 a.y.y.b."<br>"Fedri di daflu cerrig at 2 neu 3 rhif sy'n gwneud 6/7/8/9/10?" a.y.y.b. | "Fedri di ddosbarthu'r cerrig i 2 set. Disgrifia'r sut mae'r 2 set yn wahanol i ffrind. Heria dy ffrind i'w didoli mewn ffordd wahanol."<br><br>"Fedrwch chi drefnu'r cerrig i greu wyneb cloc. Mae parti ar fin dechrau am …….<br>Dangoswch yr amser ar y cloc (gan ddefnyddio brigau fel bysedd)." ❈<br><br>"Fedri di greu sawl siâp amrywiol 4/ 5/ 6 ochr gan ddefnyddio'r cerrig ?" | "Fedri di ennill llawer o bwyntiau wrth daflu cerrig bach i mewn i'r bwcedi/ cylchoedd â rhifau amrywiol? Cofiwch gadw'r sgôr."<br><br>"Fedrwch chi greu gêm gan ddefnyddio'r pentwr yma o adnoddau? Mae angen cytuno ar y rheolau." ❈<br><br>"Defnyddiwch eich corff i ddangos sut ydych yn teimlo. Gofynnwch i'ch ffrind i gopïo. Beth fyddai'n newid pe bai chi'n grac, siomedig, ofnus, swil, cynhyrfus ayb" |

|  Celf a Chrefft |  Ysgrifennu |  Darganfod |
|---|---|---|
| "Fedrwch chi greu llun gan ddefnyddio 10 carreg? Cofiwch gofnodi eich llun"<br><br>"Gall eich ffrind ail greu'r patrwm?"<br><br>"Fedrwch chi gymysgu paent i beintio'r cerrig i gyfateb â lliwiau'r enfys?"<br><br>"Rwyf wedi derbyn gwahoddiad i barti mewn hen gastell. Fedri di greu gwregys, penwisg neu emwaith o gerrig (real neu wedi'u creu) i mi i wisgo? Cofia dynnu ffotograff" | "Fedri di ysgrifennu pennill arall i'r gân?"<br><br>**Cerrig lliwgar, cerrig mawr,**<br>**Cerrig disglair ar y llawr,**<br>**Chwilio Casglu ydym ni**<br>**Creu patrwm one, two, three.**<br><br>"Mae angen cacen gerrig ar gyfer parti dathlu. Ysgrifenna resait ar gyfer dy ffrind sy'n mynd i'w goginio."<br><br>"Fedrwch chi greu llyfr dosbarth yn llawn o gymariaethau e.e. yn llwyd fel llygoden..? ayb<br><br>"Rwyt ti'n garreg hud. Rwyt ti'n cael diwrnod arbennig yn llawn antur. Fedri di gofnodi dy stori ar bapur siâp tebyg i ti er mwyn rhannu'r stori gydag eraill?" | "Edrychwch ar y casgliad o luniau o gerrig amrywiol. Tybed beth sydd wedi cuddio tu mewn? Dychmyga a rhanna gyda ffrind." ❈<br><br>"Wrth deimlo'r cerrig yn y bocs teimlo, a fedri di ddewis un a'i theimlo'n ofalus ac yna chwilio am bartner iddi o gasgliad ar hambwrdd wrth ochr y bocs? Cei dynnu'r garreg allan o'r bocs pan fyddi di'n hapus bod y ddwy yn cyfateb o ran ydy e'n drwm, ysgafn, llyfn, garw neu finiog." |

|  Tywod / *Sand* |  Dŵr / *Water* |  'Malleable' |
|---|---|---|
| "Ti yw casglwr y cerrig. Oes gen ti wisg arbennig? e.e. defnydd llwyd; mwclis ayb<br><br>"Fedri di gyfateb pob carreg ag ansoddair e.e. carreg + llyfn?"<br><br> | "Fedri di ail hen bentref o dan y dŵr?" (angen Magic Sand)<br><br>"Fedri di adeiladu wal i atal llif y dŵr?" ❋<br><br>"Beth ydych yn meddwl bydd yn digwydd os rhown ni nhw i gyd yn yr un gwydr?" (Gweler rhestr adnoddau) ❋ | "Fedri di ddefnyddio cerrig mân / tywod i greu llun / ysgrifennu gair ?" ayb |

| Peintio/ *Painting* | Byd Bach / *Small World* |  Adeiladu / *Construction* |
|---|---|---|
| "Dewisa dy hoff garreg. Fedri di gymysgu paent i greu lliw'r garreg?"<br><br>"Fedri di greu arlliwiau o lwyd?" | "Fedri di ail greu stori'r pentre yng nghanol y môr?"<br><br>"Wedi creu person/ anifail o gerrig, fedri di greu cartref iddo?" ❋<br><br>"Mae angen i'r Casglwr Cerrig gasglu mwy o gerrig? Fedri di greu llwybr anturus iddo ddilyn?" | "Chi yw Pensaer Pontydd Pentre' Pontgarreg. Yn dilyn y corwynt neithiwr mae angen ail adeiladu'r bont. Fedri di ail adeiladu'r bont dros yr afon?" |

# Cynllunio Tasgau Ffocws

| | DATBLYGU MEDDWL AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU CYFATHREBU AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU TGCh AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU RHIF AR DRAWS Y CWRICWLWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu | Datblygu'r Gymraeg | Datblygiad Corfforol | Datblygiad Creadigol | Datblygiad Mathemategol | Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | Amcanion Dysgu (Beth yw'r prif ffocws y dysgu e.e. maes dysgu + amcan cyffredinol?) | Meini Prawf Llwyddiant (Beth yw'r camau (i fyny at 3?) sydd angen i'r plant ddangos eu bod wedi llwyddo i ddeall/dysgu?) | Cyd-destun y Dysgu/ Profiadau Cyfoethog (Pwy sydd yn y grŵp? Ble mae'n cymryd lle?) | Adnoddau (Rhai adnoddau ychwanegol sydd yn rhaid cael) | Asesu ar gyfer Dysgu / Asesu'r Dysgu (nodiadau am blant unigol/grŵp - cryfderau/anawsterau eu dysgu) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasga Ffocws | • I ddatblygu dychymyg, creadigrwydd a gwreiddioldeb | Defnyddio'u dychymyg i gynnig un syniad am wrthrych sydd wedi troi'n garreg.<br><br>Gall y disgyblion ddweud wrth yr athro'r hyn ddylai lluniadu er mwyn trawsnewid y garreg i wrthrych o'u dewis. | Lluniadu golygfa glan môr gyda 5 -6 carreg ar y traeth. Bydd angen siâp unigryw ar bob carreg.<br><br>Adrodd y stori bod dewin wedi bod am dro ar hyd y traeth ac wedi troi popeth yn garreg. I ddatgloi'r hud rhaid i'r disgyblion ddyfalu beth oedd y cerrig cyn i hyn ddigwydd e.e. amlinelliad syml<br>- o anifail fel cath/ ci/ asyn<br>- fel gwialen bysgota/ ffon/ ymbarél ar gau<br>- fel ôl esgid, pysgodyn, raced tennis<br>- fel tywel, bar o sebon, blanced<br>- fel het, het haul, sgarff<br>- fel cylch rwber, pêl, pysgodyn jeli, modrwy<br><br>Rhowch help llaw i'r plant i feddwl am sawl cynnig gwahanol am bob carreg.<br><br>Dewiswch un ateb. Gofynnwch i'r plant i'ch helpu i ddadwneud yr hud. Esboniwch eich bod yn barod i lunio'u syniadau unwaith y bydd yr hyd wedi'i dorri.<br><br>Chwarae gêm ' Delwau Cerrig' ; Chi yw'r dewin. Mae'r plant yn symud o gwmpas yr ystafell. Chwifiwch eich ffon hud a galw enw'r gwrthrych e.e. « Trowch yn ddelw o gath ! » Rhaid i'r plant i newid eu cyrff i'r siâp hwnnw – fel delwau cerrig. Wrth chwifio'ch ffon hud byddant yn dadmer unwaith yn rhagor. | Taflen fawr o bapur<br>Pin ffelt<br>Amlinelliad syml (gweler gyferbyn) | |

# Cynllunio Tasgau Ffocws


| | DATBLYGU MEDDWL AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU CYFATHREBU AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU TGCh AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU RHIF AR DRAWS Y CWRICWLWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu | Datblygu'r Gymraeg | Datblygiad Corfforol | Datblygiad Creadigol | Datblygiad Mathemategol | Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | **Amcanion Dysgu** Beth yw'r prif ffocws y dysgu e.e. maes dysgu + amcan cyffredinol? | **Meini Prawf Llwyddiant** (Beth yw'r camau (i fyny at 3?) sydd angen i'r plant ddangos eu bod wedi llwyddo i ddeall/dysgu?) | **Cyd-destun y Dysgu/ Profiadau Cyfoethog** (Pwy sydd yn y grŵp? Ble mae'n cymryd lle?) | **Adnoddau** (Rhai adnoddau ychwanegol sydd yn rhaid cael) | **Asesu ar gyfer Dysgu / Asesu'r Dysgu** (nodiadau am blant unigol /grŵp –cryfderau anawsterau eu dysgu) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasgau Ffocws | Gosod cerrig yn eu trefn gan drafod a phenderfynu ar feini prawf neu reolau ar gyfer creu'r gyfres. | Disgyblion i ddewis maen prawf wrth roi set o gerrig mewn trefn - gallant ddefnyddio hyd, uchder, pwysau neu unrhyw newidyn arall. | Darparu cyfleoedd i'r plant i gyfarwyddo â'r cerrig a'u labeli e.e. cerrig/ creigiau/ cerrig mân. Cymharu dwy neu dair carreg sy'n hollol wahanol i'w gilydd er mwyn esbonio'n glir y termau 'mwy na' / 'llai na'.<br><br>Cyfle i glywed syniadau'r plant drwy drafodaeth e.e.<br>« O ble daeth y cerrig yma tybed ? »<br>« Ydych chi wedi bod yn edrych ar gerrig o'r blaen ? »<br><br>Gofyn i'r plant i osod y cerrig mewn trefn h.y. mwyaf – lleiaf a'u hannog i drafod unrhyw anawsterau a all godi wrth iddyn nhw benderfynu pa gerrig yw'r rhai mwyaf a pha gerrig yw'r lleiaf mewn gwahanol sefyllfaoedd.<br><br>Sefydlu'r rheol neu'r maen prawf sydd i'w ddefnyddio gan y grŵp cyfan wrth lunio'r gyfres e.e. mae'r garreg yn fwy os yw'n uwch na'r gweddill sydd ar y bwrdd neu mae'r garreg yn fwy os yw'n pwyso mwy na'r gweddill neu mae'r garreg yn fwy os yw'n hirach na'r gweddill ar ôl gosod y cyfan ar yr un llinell sylfaen neu os yw cylchedd y garreg ( y pellter o amgylch y tu allan iddi) yn fwy na'r cerrig eraill (gellir mesur y pellter hwn gyda darnau o wlân neu linyn a'u cymharu â'i gilydd). Cyfresu'r cerrig gan ddefnyddio'r rheol mae'r disgyblion i gyd yn cytuno arni ac yna ysgrifennu'r llythrennau sydd ar y cerrig o'r un mwyaf i'r lleiaf.<br><br>Cyfresu eto gan ddefnyddio maen prawf neu reol wahanol ac ysgrifennu'r llythrennau i'r gyfres newydd wrth ochor llythrennau' gyfres gyntaf.<br><br>Trafod y canlyniadau gan arwain y plant i sylweddoli nad oes y fath beth ag un rheol gywir ond yr hyn sy'n bwysig yw sefydlu rheolau a glynu wrthynt.<br><br>Adolygu drwy drafod e.e. « Pa reol wnaeth …. awgrymu ? Allen ni ddefnyddio rheolau eraill ? Oedd hi'n iawn i ddefnyddio'r ddwy reol ? Pan oedden ni'n defnyddio rheolau gwahanol, oedden ni'n cael yr un atebion neu atebion gwahanol ? Ydy hi'n iawn cael atebion gwahanol pan ydych chi'n defnyddio gwahanol reolau ? » | - Set o 10 carreg o amrywiol maint h.y. mawr (hyd at 10 cm mewn diamedr) a rhai bach (hyd at 1cm mewn diamedr). Dylai'r set gynnwys rhai parau o gerrig gyda siapiau afreolaidd a fydd yn gwneud hi'n anodd penderfynu pa un yw'r un fwyaf. Bydd angen peintio llythyren ar bob carreg â phen marcio er mwyn galluogi'r plant i'w hadnabod.<br>-Papur a phensil<br>- Lliain bwrdd i ddiogelu'r bwrdd (dewisol) | |

# Cynllunio Tasgau Ffocws


| | DATBLYGU MEDDWL AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU CYFATHREBU AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU TGCh AR DRAWS Y CWRICWLWM | | DATBLYGU RHIF AR DRAWS Y CWRICWLWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu | Datblygu'r Gymraeg | Datblygiad Corfforol | Datblygiad Creadigol | Datblygiad Mathemategol | Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd | |

| | **Amcanion Dysgu**<br>(Beth yw'r prif ffocws y dysgu e.e. maes dysgu + amcan cyffredinol?) | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>(Beth yw'r camau (i fyny at 3?) sydd angen i'r plant ddangos eu bod wedi llwyddo i ddeall/dysgu?) | **Cyd-destun y Dysgu/ Profiadau Cyfoethog**<br>(Pwy sydd yn y grŵp? Ble mae'n cymryd lle?) | **Adnoddau**<br>(Rhai adnoddau <u>ychwanegol</u> sydd yn rhaid cael) | **Asesu ar gyfer Dysgu / Asesu'r Dysgu**<br>(nodiadau am blant unigol/grŵp - cryfderau/anawsterau eu dysgu) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasga Ffocws | • I drawsnewid amlinelliad syml i adlewyrchu gwrthrych go iawn<br>• I ddatblygu hunan hyder<br>• I barchu barn eraill<br>• I ddatblygu dychymyg, creadigrwydd a gwreiddioldeb<br>• I weithio ar y cyd fel un grŵp | Gall disgyblion gyfrannu un syniad gwreiddiol neu fwy i'r llun.<br>Gall disgyblion wrando ar syniadau'u cyfoedion. | Tynnwch lun syml o berson (tebyg i'r dyn o goed). Esboniwch wrth y plant nad ydych yn gwybod sut mae gorffen y llun a bod eisiau'u help arnoch i'w orffen.<br><br>Anogwch y disgyblion i greu stori am y person wrth i chi luniadu rhai o'u syniadau gan gynnwys gwrthrychau neu bobl ychwanegol.<br><br>Defnyddier cwestiynau tebyg i'r canlynol i gynorthwyo'r plant wrth feddwl e.e.<br>- Ai bachgen neu ferch sydd yma ?<br>- Pa liw gwallt, llygaid sydd gan y person ?<br>- Beth mae e/ hi'n gwisgo ; pa liw yw'r dillad ?<br>- Beth mae'r person yn gwneud/ cario ?<br>- Ble mae'r person yn byw ?<br>- Ai llygaid glas neu lygaid brown fydd orau ?<br>- Pa liw esgidiau ddylai e/ hi gael ?<br><br>Wedi cwblhau'r llun gofynnwch i'r plant i ddewis enw i'r person, i benderfynu ble mae e/ hi'n mynd a thrafod beth fydd yn digwydd nesa' i'r person gan gynnig syniadau i herio'r plant e.e. Mae e/ hi'n dod ar draws ci a chredwch neu beidio mae'r ci yn gallu siarad … | Darn mawr o bapur<br>Pensiliau lliw<br>Pinnau ffelt<br> | |

# Cynllunio Tasgau Ffocws

| | | | |
|---|---|---|---|
| DATBLYGU MEDDWL<br>AR DRAWS Y CWRICWLWM | DATBLYGU CYFATHREBU<br>AR DRAWS Y CWRICWLWM | DATBLYGU TGCh<br>AR DRAWS Y CWRICWLWM | DATBLYGU RHIF<br>AR DRAWS Y CWRICWLWM |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu | Datblygu'r Gymraeg | Datblygiad Corfforol | Datblygiad Creadigol | Datblygiad Mathemategol | Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd |

| | **Amcanion Dysgu**<br>(Beth yw'r prif ffowcws y dysgu e.e. maes dysgu + amcan cyffredinol?) | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>(Beth yw'r camau (i fyny at 3?) sydd angen i'r plant ddangos eu bod wedi llwyddo i ddeall/dysgu?) | **Cyd-destun y Dysgu/ Profiadau Cyfoethog**<br>(Pwy sydd yn y grwp? Ble mae'n cymryd lle?) | **Adnoddau**<br>(Rhai adnoddau <u>ychwanegol</u> sydd yn rhaid cael) | **Asesu ar gyfer Dysgu / Asesu'r Dysgu**<br>(nodiadau am blant unigol/grŵp - cryfderau/anawsterau eu dysgu) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasga Ffocws | • Cysylltu amlinelliad syml o siâp â gwrthrych real<br>• I ddod o hyd i amrywiol atebion ar gyfer un problem<br>• I ddatblygu dychymyg, creadigrwydd a gwreiddioldeb<br>• I ddatblygu dyfalbarhad a chanolbwyntio | Defnyddio'u dychymyg i gynnig syniadau niferus | Rhannu'r stori am yr artist oedd wedi dechrau tynnu llun teganau amrywiol ond heb gael amser i'w gorffen a nawr mae'n teimlo'n drist. Gofyn i'r disgyblion a fedran nhw ei helpu drwy gynnig syniadau beth all y teganau i fod ?<br><br>Dangos un llun ar y tro i'r plant a'u hannog i feddwl yn greadigol a chynnig gymaint o syniadau â phosib am bob llun e.e.<br><br>1. carreg , plat, llygad, ôl troed, sebon ayb<br>2. bath, cwch, llong, bwced, powlen ayb<br>3. pyramid, tŵr, roced, coeden Nadolig, hwyl ayb<br>4. dyn eira, dol, bwgan brain, cath ayb<br>5. ci, hwyaden, dafad ayb<br>6. trên, car, lori, gogls nofio ayb<br>7. dyn, dol, pyped, Santa<br><br>Gellir eu hannog i ddisgrio'r tegan yn fwy manwl drwy ofyn cwestiynau fel « Ydy e'n fawr neu'n fach ? Pa liw ydy e ? Gellir eu hannog i feddwl am degan nad oes neb arall wedi meddwl amdano. | Taflenni maint A4 gyda'r amlinelliadau canlynol arnynt :<br>1.<br>2.<br>3.<br>4.<br>5.<br>6.<br>7.<br> | |

# Adnoddau Cyffredinol:

- Amrywiaeth o gerrig e.e. mawr, bach, miniog, llyfn, garw, gwyn, llwyd, coch, gwyrdd, smotiog, hir, byr, crwn, syth a.y.b.
- Carreg wedi ei baentio'n aur (D.P. Darllen)
- Cardiau cliw (D.P. Darllen)
- Sialc/paent- Ysgrifennu llythyren, gair neu rif ar y cerrig
- Llyfr Stori bylchu e.e. Un tro aeth……….i'r…………..
- Amrywiaeth o sbwriel e.e. potiau iogwrt, bocsys hufen iâ a.y.b.
- Defnydd/dilledyn neu het lwyd ar gyfer chwarae rôl
- Carreg Siâp ffôn- chwarae rôl
- Rhifau 1-10 ar gardiau (neu uwch os yn dymuno ymestyn y gweithgaredd)
- Tua 6 bwced (D.P. Corffol)
- Deunyddiau naturiol e.e. dail, brigau, moch y coed a.y.b.
- Adnoddau crefft e.e. papur lliw, paent, glud, gliter a.y.b.
- Papur amrywiol a phensiliau
- Olew, triog melyn, dŵr a lliw bwyd (Eu harllwys i mewn yn y drefn yma, gan ddefnyddio chwystrellwr ar gyfer y lliw bwyd) Adnoddau arnofio a suddo e.e.

# Geirfa

**Dyma restr o rai geiriau o’r ddrama y mae’n bosib eu bod yn anghyfarwydd i nifer o’r disgyblion.**

**Awgrymir ceisio cyflwyno’r geiriau a nodir gyda * i’r disgyblion cyn y perfformiad er mwyn iddynt gael profiad llawnach o’r sioe.**

| | |
|---|---|
| **llyfn *** | **dilynwch** |
| **garw *** | **diogel** |
| **miniog *** | **defnyddiol** |
| **prydferth *** | **diflannu** |
| **hardd *** | **canolbwyntio** |
| **cymysgu** | **tonnau *** |
| **ychwanegu** | **llifo *** |
| **enfawr** | **chwalu** |

# Syniadau Ychwanegol…….

Copïo'r ffotograff o gerrig

Amlinellu o gwmpas amrywiaeth o gerrig

Defnyddio dwy garreg i curo sawl sill sydd mewn enwau amrywiol

Defnyddio toes/clai i greu cerrig maint amrywiol e.e.

Sut mae'r tywod yn cyrraedd y traeth? Trafod

Defnyddio'r cerrig i greu pentref e.e.pobl cerrig, tai cerrig, siop a.y.b.

Creu cymeriad mawr allan o gerrig– meddwl am enw, oed, hoff/cas bethau, cartref a.y.b

Creu straeon ar lafar sy'n dechrau gydag 'Un tro….. '

Creu gwahoddiad i barti Cantre'r Gwaelod

# Syniadau Ychwanegol

Meddwl am gwestiynau i gymeriadau'r ddrama.

Ysgrifennu neges i ffrind ar garreg

Creu patrwm gyda'r cerrig, ffrind i gopïo neu greu patrwm

Adeiladu gair/brawddeg gan ddefnyddio cerrig gyda llythrennau neu eiriau arnynt.

Creu dawns ar gyfer parti mewn castell.

Pwyso'r cerrig a'u dosbarthu yn ôl y trymaf i'r ysgafnaf.

Mewn par: un plentyn i ddilyn cyfarwyddyd y partner arall e.e. "Alli di osod y garreg wen o dan y gadair?"

Cyflwyno gemau buarth e.e. defnyddio cerrig i gyfri fesul 2 h.y. 'Hopscotch'

Rhannu cerrig gyda rhifau eilrif neu odrif mewn i ddau grŵp

# CÂN AM GASGLU CERRIG

## o CERRIG YN SLIC - Cwmni Theatr Arad Goch



# Lluniau

## Defnyddiwch y lluniau yma i helpu'ch disgyblion i gofio ac i drafod y ddrama.



# Tap-tap – mae'n galw ei ffrind gyda'r cerrig



# Cerrig fel cwch



# Carreg fel ffôn



# Cyfri



# Maen nhw'n dweud 'helo' gyda cherrig



# Dydy hi ddim yn hapus



# Sychu, sychu, sychu, sychu!



# Stori am fôr-forwyn



# Adeiladu



# Gwlad yng nghanol y môr



# Cacen gerrig



# Pwy dorodd y gacen?



# Mae e'n drist



# Lluniau a siapau

## Crwban




# Tŷ




# Blodau






Ydy'r cerrig yn siarad â'i gilydd?
Beth maen nhw'n dweud?

# Dewiswch eiriau i ddisgrifio rhain?



garw

crwn

llyfn

miniog

medal

ysgafn

caled

lliwgar

trwm

Mae'r cerrig yn …………………………………………………………………………………….

Mae'r cerrig fel……………………………………………………………………………………..

# Dewiswch eiriau i ddisgrifio rhain?

garw

crwn

llyfn

miniog

syth

medal

ysgafn

caled

lliwgar

trwm

wastad



## Mae'r cerrig yn ......................

## Mae'r cerrig fel......................

# Fel beth mae rhain yn edrych?

